



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 17 Chwefror 2022

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 17
Chwefror 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 12 Ionawr 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 12 Ionawr 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cofnod

Pwyntiau Gweithredu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cofnod

Yn bresennol

Jeremy Miles AS - Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Rhodri Llwyd Morgan - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Enlli Thomas - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhian Huws Williams - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Angharad Mai Roberts - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rosemary Jones - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Dyfed Edwards - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Dafydd Hughes - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Lowri Morgans - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Meleri Davies - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhys Jones - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Andrew White - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Swyddogion - Adran Ystadegau, Llywodraeth Cymru

Dr Ioan Matthews - Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Gwenllian Griffiths - Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bethan Webb - Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Is-adran y Gymraeg (Arsylwi'n unig) - Is-Adran y Gymraeg,
Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Simon Brooks - Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Eitem 1: Gair o groeso a diweddariad

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cafwyd diweddariad cryno gan y Gweinidog.

Cam Gweithredu 1

Ysgrifenyddiaeth i rannu dolen at araith y Gweinidog yn nodi trigain mlynedd ers traddodi Tynged yr Iaith gydag Aelodau.

Eitem 2: Diweddariad ar Ddatblygu Cynllun 10 Mlynedd y Gweithlu Addysg

Cafwyd cyflwyniad gan Rosemary Jones, Aelod o'r Cyngor Partneriaeth, ar y Cynllun 10 Mlynedd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Nododd mai grŵp gorchwyl a gorffen yw hwn, wedi ei gynnull gan y Llywodraeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n grŵp cymysg sy'n gweithio tuag at amcan 10 mlynedd.

Mae Rosemary wedi ei henwebu i gynrychioli'r Cyngor ar y grŵp. Bydd y grŵp yn cyhoeddi adroddiad ym mis Ebrill.

Cyfeiriodd y drafodaeth ddilynol at:

- weithlu yn y maes addysg bellach a phrentisiaethau
- cynyddu darpariaeth addysg yn y sector gwirfoddol
- gofynion ieithyddol polisiau recriwtio ysgolion.

Athrawon fydd ffocws yr ail gyfarfod.

Cynigiodd Rosemary i aelodau gysylltu â hi rhwng cyfarfodydd gydag unrhyw sylwadau yr hoffent iddi eu cyflwyno yn y cyfarfodydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Chwefror.

Eitem 3: Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg (sgwrs gychwynnol)

Cafwyd diweddariad gan Swyddogion Llywodraeth Cymru am y gwaith sgopio cynnar sydd wedi digwydd hyd yma.

Yn dilyn y diweddariad, cafwyd trafodaeth fer am y camau nesaf gyda'r Aelodau ac addewid y bydd trafod pellach yn y dyfodol.

Eitem 4: Trafodaeth am y daith ddiwygio a sut i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg

Rosemary Jones, Aelod o'r Cyngor Partneriaeth fu'n arwain y drafodaeth hon.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Soniodd fod ysgolion ledled Cymru'n cynllunio ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 (neu 2023 ar gyfer rhai ysgolion uwchradd).

Cafwyd diweddariad ar:

- Y cyfleoedd sydd gan yr ysgolion wrth gynllunio eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru
- Yr heriau y mae'r ysgolion yn eu hwynebu wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddau gwestiwn penodol:

1. Sut all y gymuned ehangach gynorthwyo'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm o safbwynt darpariaeth y Gymraeg ar draws y continwmm 3 i 16 ac mewn amrediad o gyd-destunau ieithyddol?
2. A yw'r trefniadau presennol ar gyfer addysg Gymraeg yn hwyluso'r broses o ddarparu cyfleoedd cyfoethog ar gyfer caffael iaith?

Cyfeiriodd y drafodaeth ddilynol at:

- Bwysigrwydd deall cyfrifoldebau
- Rôl cymunedau'n dylunio'r cwricwlwm
- Sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu

Nododd Aelod y byddai'n croesawu papur i ehangu ychydig ar gyflwyniad Rosemary er mwyn i aelodau allu ystyried sut allant gyfrannu at y gwaith hwn yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 2

Rosemary i gyflwyno papur er mwyn ehangu ar ei chyflwyniad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Eitem 5: Cyflwyniad ar Ddefnydd iaith

Trosglwyddwyd yr awenau i Rhian Hodges o Brifysgol Bangor. Cafwyd cyflwyniad ar ei chanfyddiadau ar ddefnydd iaith yn dilyn cyhoeddiad ei herthygl “*Defiance within the decline? Revisiting new Welsh speakers’ language journeys*”.

Cafwyd trafodaeth fywiog ar ganfyddiadau’r ymchwil a’i bwysigrwydd wrth i ni geisio cyrraedd y miliwn a dyblu defnydd iaith.

Cam Gweithredu 3

Rhian Hodges i rannu’r cyflwyniad gyda’r Aelodau drwy law yr Ysgrifenyddiaeth.

Cam Gweithredu 4

Nododd y Gweinidog ei fod yn awyddus i ystyried y cyflwyniad hwn ymhellach mewn cyd-destun polisi.

Eitem 6: Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i’w drafod.

Diolchodd y Gweinidog i’r Aelodau am eu hamser, eu cefnogaeth ac am eu gwaith.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma’r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Pwyntiau Gweithredu

Pwyntiau Gweithredu

Pwynt gweithredu	I bwy?	Erbyn pryd?	Wedi cwblhau?
1 Ysgrifenyddiaeth i rannu dolen at araith y Gweinidog yn nodi trigain mlynedd ers traddodi Tynged yr Iaith gydag Aelodau.	Ysgrifenyddiaeth	Cyn gynted ag sy'n bosibl	
2 Rosemary i gyflwyno papur er mwyn ehangu ar ei chyflwyniad.	Rosemary Jones	2 Mai	
3 Rhian Hodges i rannu'r cyflwyniad gyda'r Aelodau drwy law yr Ysgrifenyddiaeth.	Ysgrifenyddiaeth i gysylltu gyda Rhian Hodges	Cyn gynted ag sy'n bosibl	
4 Nododd y Gweinidog ei fod yn awyddus i ystyried y cyflwyniad hwn ymhellach mewn cyd-destun polisi.	Ysgrifenyddiaeth	Erbyn y cyfarfod nesaf	

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-chwefror-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).